PLANED

# Grymuso Cymunedau

EIN GWELEDIGAETH | 2022-2025




Mae ein tîm medrus sydd wedi ei leoli yn Sir Benfro ers dros 30 mlynedd, ac sy'n cael effaith gynyddol yn lleol ac yn rhanbarthol, yn cefnogi grymuso parhaus, cadernid ac adfywiad ein cymunedau mewn partneriaeth, ledled eu hasedau diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol.

## Ein Cenhadaeth

Mae PLANED yn darparu canlyniadau cynaliadwy i gymunedau drwy ddull cydweithredol wedi ei arwain gan y bobl.

## Ein Hagwedd

Mae PLANED yn elusen brofiadol, sy'n edrych i'r dyfodol ac yn cael ei thywys gan y gymuned. Mae hi'n arloesol ei dull, yn greadigol ei hagwedd, ac yn canolbwyntio ar bartneriaeth yn ei darpariaeth.



# Ein Gwerthoedd

Edrych ymlaen a thuag allan yn gyson yn ein hymgysylltiad

Cefnogi dibenion ar y cyd yn frwd i rymuso ein cymunedau

Gweithio gyda phartneriaid sydd â dibenion ac amcanion cyffredin, ac yn gwrando arnynt

Canfod atebion arloesol wrth weithio drwy'r holl sectorau

Cefnogi'r holl leisiau, ieithoedd a grwpiau i sicrhau y cânt eu clywed

# Y Darlun Mawr

**Mae PLANED, sydd â mwy na 30 mlynedd o brofiad, yn darparu ar gyfer cymunedau ledled Sir Benfro, yn parhau i arloesi, esblygu ac ehangu er mwyn parhau'n berthnasol a chefnogol i'r cymunedau yr ydym yn gweithio â nhw.**

Er bod llawer o brosiectau gwych wedi eu darparu yn ystod y tri degawd diwethaf, yn cynnwys rheoli Rhaglen Gyllido'r Undeb Ewropeaidd LEADER i Sir Benfro, mae'r amgylchiadau, yr amgylchedd a'r proffesiynoldeb a ddisgwylir, wedi newid yn sylweddol.

Mae PLANED yn sefydliad sy'n edrych ymlaen yn gyson, sy'n edrych tuag allan yn ei ymgysylltiad, ac sy'n gadarnhaol ynglŷn â rôl partneriaethau i gyflawni amcanion cynaliadwy ar y cyd yn Gymraeg a Saesneg.

Mae PLANED, sy'n gweithio'n gynyddol yn rhanbarthol ledled Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, ond sy'n parhau â'i wreiddiau'n gryf iawn yn Sir Benfro, yn sefydliad sy'n ymwybodol yn gymdeithasol ac yn economaidd ac sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi'n frwd y diben ar y cyd o gynyddu gwaith grymuso priodol ein cymunedau.

Mae ein prosiectau presennol, a phrosiectau'r dyfodol, yn cael eu bwydo fwy gan y bobl ar lawr gwlad ein cymunedau, ac felly, gan anghenion a gofynion y mwyafrif. Rydym yn darparu'r prosiectau hyn drwy weithio gyda'n partneriaid a gwrando arnynt, a chael trafodaethau a arweinir gan ddiben a bwriad cyffredin eglur.

Mae'r geiriau 'cymuned' ac 'elusen' wedi eu trwytho drwy ein DNA fel sefydliad, ond ar yr un pryd, nid yw hyn yn golygu nad ydym yn fasnachol yn ein hagwedd, am ein bod yn pennu atebion sydd hyd yn oed yn fwy arloesol ac yn gweithio ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector ar y cyd i sicrhau cyflawniad ein hamcanion mewn ffordd gynaliadwy, yn gymdeithasol ac yn economaidd.

Byddwn yn parhau i gefnogi hyrwyddiad a datblygiad ein hasedau diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol ar draws y cymunedau, ac yn gwneud hynny lle bo modd clywed yr holl leisiau, ieithoedd a grwpiau perthnasol er mwyn uchafu'r effaith a'r cadernid, yn seiliedig ar ein cyd-adnoddau naturiol, digidol a chynaliadwy yng Ngorllewin Cymru.



Bydd Planed yn gwireddu ei weledigaeth a'i genhadaeth drwy ategu hyn gyda phedwar maes amlwg y canolbwyntir arnynt, i gefnogi a darparu'r gwaith o hwyluso datblygiad cymunedol annibynnol ar draws gorllewin Cymru.


DATBLYGU ECONOMI SYLFAENOL




LLES A CHADERNID Y GYMUNED

ASEDAU CYMUNEDOL AMGYLCHEDDOL, NATURIOL A DIWYLLIANNOL

ATEBION CYMUNEDOL GWYRDD A CHARBON ISEL




**Trwy gefnogi ein meysydd ffocws fel elusen a sefydliad datblygol a arweinir gan y gymuned, byddwn yn darparu cyfres o brosiectau sy'n cefnogi ei gilydd gan beidio â gweithredu ar eu pennau eu hunain.**

Trwy weithio gyda diben ar y cyd o sicrhau incwm sefydliadol cynaliadwy, bydd y themâu cyffredin – cymunedau, pobl a phartneriaeth – yn ganolog i'r holl elfennau y gallwn eu darparu yn unol â'n prif feysydd ffocws.

Gydag ymwybyddiaeth allweddol o bolisïau cenedlaethol, strategaethau rhanbarthol ac anghenion lleol, i gefnogi a hysbysu ein prosiectau i gyd, bydd pob un wedi ei fesur gan ddangosyddion perfformiad perthnasol a data meincnodi sydd ar gael, yn erbyn tri maen prawf allweddol lle bo'n berthnasol ac yn gymwys, i gefnogi'r cymunedau hynny a'u hamcanion yn y tymor hirach.

## **Ffocws 1**
## Datblygu Economi Sylfaenol

- → Datblygu ein gwaith cyfredol mewn cymunedau lleol, i hyrwyddo cadernid, pwysigrwydd ac effaith busnesau micro lleol a'u sgiliau ymhellach, ochr yn ochr â'r cyflogwyr mwy eu maint sydd eisoes mewn bodolaeth
- → Parhau i gefnogi ehangiad ac adfywiad cadwynau cyflenwi lleol drwy sectorau o fewn yr economi sylfaenol sy'n cynnal ac yn diogelu amgylchedd lleol ein cymunedau
- → Parhau i gasglu data a thystiolaeth gan gymunedau a fydd yn hysbysu ac yn cefnogi datblygiad busnesau lleol gyda phartneriaid, a'u cysylltiadau yn lleol ac yn rhanbarthol
- → Canfod cyllid priodol i ddatblygu mentrau newydd mewn partneriaeth er mwyn uchafu'r arloesi a'r adfywio posibl mewn sectorau, yn cynnwys twristiaeth a lletygarwch; digidol; a bwyd
- → Canfod y cyfleoedd pellach drwy economi werdd a charbon isel i gefnogi sut mae busnesau micro a mentrau bach a chanolig sy'n bodoli eisoes o fewn ein cymunedau, yn gallu gwella eu cynaliadwyedd

## **Ffocws 2**
## Lles a Chadernid y Gymuned

- → Parhau i gefnogi a hyrwyddo'r broses o rymuso ein cymunedau drwy hyfforddi, cyd-gynhyrchu, gweithio mewn partneriaeth, a dylanwadu ar gyrff sector cyhoeddus allweddol yn eu gwaith darparu a chynllunio i'r dyfodol
- → Edrych eto ar yr holl Gynlluniau Gweithredu Cymunedol blaenorol perthnasol er mwyn diweddaru a chefnogi'r cymunedau hynny yn eu gweledigaeth ar y cyd o sicrhau datblygiad penodol yn unol â thargedau cadernid a lles
- → Bod yn sefydliad amlwg y gellir ymddiried ynddo i ddatblygu a hyrwyddo Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol ledled Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin; dan arweiniad anghenion penodol bob cymuned i ddatblygu tai fforddiadwy a chymwys i gadw a chefnogi trigolion lleol o fewn eu cymunedau
- → Hyrwyddo llais pobl ifanc a'u grymuso fel y genhedlaeth nesaf o arweinwyr cymuned, wrth i ni ganfod dulliau a chyfryngau iddyn nhw allu cymryd rhan mewn cyrff cymunedol a democrataidd lleol i greu dyfodol gwell ar y cyd

## Ffocws 3
## Asedau Cymunedol Amgylcheddol, Naturiol a Diwylliannol

- Cefnogi cymunedau i gydnabod pwysigrwydd eu hamgylchedd naturiol a'i gynaliadwyedd
- Datblygu prosiectau pellach sy'n harneisio ymgysylltiad rhyng-genedlaethol i ddarparu canlyniadau sy'n hyrwyddo lles cymunedol ar sail hanes lleol, natur, diwylliant ac iaith
- Cefnogi cadernid ac amrywiaeth ein cymunedau gwledig, arfordirol a threfol, wrth symud i ffwrdd oddi wrth ddibyniaeth ar fesurau dros dro a thymhorol, at gynaliadwyedd a thwf drwy'r flwyddyn gron
- Cefnogi a hyrwyddo ymhellach, gyda phartneriaid cymwys, cadw asedau lleol o fewn cymunedau drwy godi arian, fel bod modd i berchnogaeth gael ei throsglwyddo i'w rheoli gan gymunedau
- Hyrwyddo ymgysylltiad â llais pobl ifanc o fewn cyrff sydd wedi eu hethol yn lleol a grwpiau budd a sector ehangach, i gefnogi cynaliadwyedd eu hasedau cymunedol i bob cenhedlaeth
- Parhau i bennu offer digidol cyfredol a rhai sy'n dod yn gynyddol amlwg i gefnogi datblygiad a dehongliad asedau naturiol, diwylliannol ac amgylcheddol cyfredol ar draws yr holl ardaloedd daearyddol a sectorau o ddiddordeb

## Ffocws 4
## Atebion Cymunedol Gwyrdd a Charbon Isel

- Sicrhau bod cymunedau'n cyfranogi ac yn ymddiddori wrth ganfod eu hatebion eu hunain i ymdrin â heriau ecolegol a hinsawdd
- Canfod cyfleoedd i ddatblygu a hyrwyddo prosiectau sydd wedi eu halinio â'r agenda werdd a charbon isel a fydd yn gwella lles amgylcheddol cymunedau a'u cynaliadwyedd
- Gweithio gyda phartneriaid cymwys i gefnogi cynaliadwyedd mewn amaethyddiaeth a'i effaith ar y cymunedau lleol maent yn cydweithio â nhw
- Hyrwyddo dulliau traddodiadol ac arloesol o dyfu bwyd a'i gyflenwi, fel y bo'n berthnasol i anghenion cymunedau sydd ynghlwm ag atebion gwyrdd a charbon isel ehangach
- Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi ymgysylltiad ac arloesi wrth ddatblygu Ynni Morol y Môr Celtaidd a'i gyfleoedd ehangach, mewn cysylltiad â chymunedau yng Ngorllewin Cymru, i hyrwyddo ynni gwyrdd a'r 'economi (forol) las'

PLANED

+44 (0) 1834 860965
information@planed.org.uk

